Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Polisi Cwynion

Rhagarweiniad

Yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, rydym yn ymdrechu i ddarparu addysg dda i'n holl blant. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n galed iawn i feithrin perthynas dda gyda'n holl rieni. Serch hynny, mae'n ofynnol i'r ysgol gael gweithdrefnau rhag ofn i rieni neu warcheidwaid gwyno. Mae'r polisi canlynol yn disgrifio'r gweithdrefnau y mae'r ysgol yn eu dilyn mewn achosion o'r fath.

Os yw rhieni'n anhapus â'r addysg y mae eu plentyn yn ei derbyn, neu os oes ganddynt bryderon sy'n ymwneud â'r ysgol, rydym yn eu hannog i siarad ag athrawon dosbarth eu plant ar unwaith.

Rydym yn ymdrin â chwynion yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr AALl. Os na all yr ysgol ddatrys y gŵyn, gellir cyfeirio'r mater i'r AALl.

Mae gan yr holl rieni, fel y dewis olaf un, yr hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, os ydynt yn teimlo na chafodd eu cwyn ei thrin yn briodol.

Nodau

Nod Ysgol Gynradd Gymraeg Melin Gruffydd yw bod yn deg, yn agored ac yn onest wrth ymdrin ag unrhyw gŵyn. Rydyn yn ystyried yr holl gwynion yn ofalus, ac yn ymdrin â hwy gyn gynted â phosib. Ein nod yw datrys unrhyw gŵyn drwy ddeialog a dealltwriaeth ar ran y ddwy ochr. Ym mhob achos, buddiannau'r plentyn sydd bwysicaf. Rydym yn rhoi digon o gyfle i drafod cwynion yn llawn ac yna'u datrys.

Y broses gwyno

Os oes gan rieni bryderon am unrhyw beth sy'n ymwneud â'r addysg yr ydym yn ei chynnig yn ein hysgol, dylent, yn y lle cyntaf, drafod y mater gydag athrawon dosbarth eu plant. O brofiad, gellir datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gadarnhaol drwy wneud hyn. Mae'r holl athrawon yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl blant yn hapus yn yr ysgol, ac yn datblygu'n dda; yn naturiol, maent yn awyddus i wybod a oes unrhyw broblem, er mwyn iddynt gymryd camau cyn i'r mater effaithio'n andwyol ar gynnydd y plentyn.

Os yw rhieni'n teimlo nad yw'r sefyllfa wedi'i datrys yn foddhaol drwy gysylltu â'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth, neu os yw eu pryder o natur ddifrifol, dylent drefnu amser i drafod hynny gyda'r pennaeth. Mae'r pennaeth yn ystyried unrhyw gŵyn yn ddifrifol, ac yn ymchwilio i bob achos yn drwyadl. Fel arfer, bydd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu datrys yn ystod y cam hwn.

Os bydd gan rieni gŵyn yn erbyn y pennaeth, dylent yn y lle cyntaf grybwyll y peth yn anffurfiol i aelod o'r corff llywodraethu, y mae'n ddyletswydd arno i'w harchwilio. Bydd y llywodraethwr perthnasol yn gwneud ei orau glas i ddatrys y mater drwy ddeialog â'r ysgol, ond os yw'r rhieni'n anfodlon ar y canlyniad, gallant gyflwyno cwyn ffurfiol, yn ôl y drefn isod.

Yr unig adeg y dylid cyflwyno ffurfiol i'r corff llywodraethu yw pan fo cwyn anffurfiol wedi methu â datrys y mater. Rhaid cyflwyno'r gŵyn hon mewn llythyr, gan ddisgrifio natur y gŵyn, a sut y mae'r ysgol wedi ymdrin â hynny hyd yn hyn. Dylai'r rhieni anfon y gŵyn ysgrifenedig hon at gadeirydd y llywodraethwyr.

Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried pob cwyn ysgrifenedig o fewn tair wythnos o'i derbyn. Bydd yn trefnu cyfarfod i drafod y gŵyn, gan wahodd y person sy'n cyflwyno'r gŵyn i'r cyfarfod er mwyn trafod y gŵyn ymhellach. Bydd yr ysgol yn rhoi tri diwrnod o rybudd o leiaf i'r achwynydd ynghylch y cyfarfod.

Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, bydd y llywodraethwyr yn ystyried eu penderfyniad ac yn hysbysu'r rhieni drwy lythyr. Bydd y llywodraethwyr yn gwneud eu gorau glas i ddatrys y gŵyn er boddhad y rhieni.

Os na chaiff y gŵyn ei datrys, gall rhieni gyflwyno eu hachos i'r AALl. Mae mwy o wybodaeth ynghylch y broses hon ar gael gan yr ysgol neu gan yr AALl. Bydd person annibynnol yn cadeirio cyfarfod pellach, a fydd yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad mewn ymgais i ddatrys y gŵyn.

Os yw rhieni'n parhau'n anfodlon ar y ffordd y cafodd y gŵyn ei thrin, mae ganddynt hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

Monitro ac adolygu

Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau bod yr holl gwynion yn cael eu trin yn briodol.

Bydd y llywodraethwyr yn ystyried unrhyw benderfyniad lleol neu genedlaethol a allai effeithio ar y broses gwyno, ac addasu'r polisi hwn yn ôl y galw. Mae'r polisi hwn ar gael i'r holl rieni, fel y gallant ymgyfarwyddo â'r broses gwyno.

Adolygir y polisi hwn bob tair blynedd, neu yn ôl y galw.